

**DYDD GWENER, 10 MEDI 2021**

**AT: HOLL AELODAU'R PWYLLGOR APELAU**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **PWYLLGOR APELAU** SYDD I'W GYNNAL YN **NEUADD Y GWENDRATH - DREFACH** AM **9.45 YB, DYDD MAWRTH, 21AIN MEDI, 2021** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA ATODEDIG.

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**



**AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA**

<b>Swyddog Democrataidd:</b>	<b>Kevin Thomas</b>
<b>Ffôn (Llinell Uniongyrchol):</b>	<b>01267 224027</b>
<b>E-bost:</b>	<b><a href="mailto:kjthomas@sirgar.gov.uk">kjthomas@sirgar.gov.uk</a></b>

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive*,  
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JPs  
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

# PWYLLGOR APELAU

6 AELOD

## GRŴP PLAID CYMRU – 3 AELOD

- |    |            |                               |
|----|------------|-------------------------------|
| 1. | Cynghorydd | <b>Kim Broom</b>              |
| 2. | Cynghorydd | <b>Ken Howell</b> (Cadeirydd) |
| 3. | Cynghorydd | <b>Dorian Williams</b>        |

## GRŴP LLAFUR – 1 AELOD

- |    |            |                  |
|----|------------|------------------|
| 1. | Cynghorydd | <b>Dot Jones</b> |
|----|------------|------------------|

## GRŴP ANNIBYNNOL – 1 AELOD

- |    |            |                                 |
|----|------------|---------------------------------|
| 1. | Cynghorydd | <b>Sue Allen</b> (Is-Gadeirydd) |
|----|------------|---------------------------------|

## GRŴP ANNIBYNNOL NEWYDD – 1 AELOD

- |    |            |                    |
|----|------------|--------------------|
| 1. | Cynghorydd | <b>Eryl Morgan</b> |
|----|------------|--------------------|

*NI CHANIATEIR EILYDDION MEWN CYFARFODYDD O'R PWYLLGOR YMA*

# AGENDA

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**
2. **DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**
3. **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 12 TACHWEDD 2019** 5 - 8
4. **DDIM I'W GYHOEDDI**  
NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIAD SY'N YMWNEUD Â'R FATER CANLYNOL GAN EI FOD YN CYNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 13 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007. OS BYDD Y BWRDD, AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y FATER YMA YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH.
5. **YSTYRIED APEL YN ERBYN DISWYDDO - ADRAN YR AMGYLCHEDD** 9 - 160

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

## PWYLLGOR APELAU

Dydd Mawrth, 12 Tachwedd 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd S.M. Allen (Is-Gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**

K.V. Broom, D. Jones, E. Morgan a D.T. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

C. Jones, Cyfreithiwr Cynorthwyol

L. Evans, Uwch Swyddog Adnoddau Dynol

L. Jenkins, Swyddog Gwasanaethau Democraidd

**Ystafell Pwyllgor 2, - 3 Heol Spilman, Caerfyrddin. SA31 1LE. - 9.45 yb - 2.15 yp**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Ken Howells

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

Ni ddatganwyd dim buddiannau.

**3. COFNODION**

**3.1. 4YDD HYDREF, 2019**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2019 yn gofnod cywir.

**3.2. 11EG HYDREF 2019 (WEDI'O OHIRIO I'R 16EG HYDREF, 2019)**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2019 yn gofnod cywir, yn amodol ar y newid uchod –

Dylai Cofnod 5.2 ddarllen fel a ganlyn –

Ar sail yr amgylchiadau lliniarol, bod

- yr apêl yn cael ei chadarnhau, gan roi rhybudd ysgrifenedig terfynol
- penderfyniad y Gwrandawriad Disgyblu a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2019 i ddiswyddo'r apelydd yn cael ei ddiddymu a bod yr apelydd yn cael ei diraddio i swydd arall. Os nad oes cyllideb ar gyfer swydd arall, dylai'r gweithiwr ddychwelyd i'w swydd barhaol â hyfforddiant a chymorth.

**4. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD  
AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYN  
YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.**

Nid oedd dim.

## 5. DDIM I'W GYHOEDDI

**PENDERFYNWYD yn unol â Pharagraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig a chanlyniad y prawf budd y cyhoedd o ran y materion hyn oedd:**

**“Roedd yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth bersonol ynghylch yr ymgeiswyr. Er y byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd, roedd y budd i'r cyhoedd o gadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth, am fod angen sicrhau nad oedd neb yn gwybod pwy oedd yr ymgeiswyr na'u teuluoedd”.**

## 6. YSTYRIED APEL YN ERBYN DISWYDDO - ADRAN GWASANAETHAU CYMUNEDAU

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 7 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddid yn datgelu gwybodaeth eithriedig a fyddai'n debygol o ddatgelu pwy yw'r unigolyn dan sylw.**

Roedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud ag enw'r apelydd a manylion personol eraill, sef data personol yn unol â'r diffiniad yn Adran 1 o Ddeddf Diogelu Data 1998. **Nid oedd y mater a fyddai'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn fater budd cyhoeddus. Byddai datgelu'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad yn annheg ac yn groes i hawl yr apelydd i gael preifatrwydd. Felly ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cynnwys yr adroddiad yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i'r apelydd, ynghyd â'r Swyddogion Ymchwilio a Chomisiynu penodedig, ac amlinellodd y protocol y byddid yn ei ddilyn wrth wrando ar yr apêl (roedd copïau o'r protocol ym mhecyn yr agenda.)

Gwrandawodd y Pwyllgor ar dystiolaeth gan y Swyddog Comisiynu a'r apelydd.

Cafodd y ddwy ochr gyfle i groesholi ynghylch y dystiolaeth a roddwyd ac i grynhoi. Ar ôl gwneud hynny, gadawodd y ddwy ochr y cyfarfod tra oedd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth a'r sylwadau a gyflwynwyd.

## HYD Y CYFARFOD

Am 1.40yp wrth ystyried yr eitem hon, tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o'r Weithdrefn Gorfforaethol - 'Hyd y Cyfarfod' - ac at y ffaith bod y cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr. **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL atal Rheolau'r Weithdrefn Gorfforaethol er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ystyried yr eitemau a oedd ar ôl ar yr agenda.**

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, ynghyd â'r sylwadau a wnaed gan yr apelydd, ac ar ei rhan, a chan y Swyddogion Comisiynu ac Ymchwilio:-

## **PENDERFYNWYD**

- 6.1 bod yr apêl yn cael ei chadarnhau a bod penderfyniad y Gwrandawriad Disgyblu a gynhaliwyd ar 9 Awst 2019 i ddiswyddo'r apelydd yn cael ei ddiddymu a bod yr apelydd yn cael ei hadfer i'w swydd ond mewn rôl/maes gwahanol i o'r blaen; ond os nad oes rôl arall ar gael dylai'r apelydd ddychwelyd i'w rôl barhaol;**
- 6.2 y dylai'r apelydd ddychwelyd i'r pwynt ar waelod Gradd D ar y Golofn Gyflogau**
- 6.3 bod yr apelydd yn cael rhybudd ysgrifenedig terfynol**

---

**CADEIRYDD**

---

**DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol



# Eitem Rhif 5

Yn rhinwedd paragraff(s) 13 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd  
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol